# POLISI DIOGELU DATA

**CYNNWYS**


1. Adolygiad / Taflen Adolygu
2. Pwrpas
3. Sgôp
4. Cyfrifoldebau
5. Manylion y Polisi
6. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
7. Adolygiad

## 1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU

| Rhifyn | Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid | Perchennog y Ddogfen | Dyddiad Rhannu |
|---|---|---|---|
| 0 | Dogfennau Newydd | Marie Wilde | Mawrth 2010 |
| 1 | Ymestyn cynnwys y ddogfen a newidiadau yn y teitl o Polisi Cyfrinachedd | Geraint G Jones | Rhagfyr 2011 |
| | | | |
| 2 | Adolygu a diweddariadau bychain | Geraint G Jones | Awst 2017 |
| 3 | Adolygu a diweddaru yn unol â rheoliadau DPA 2018 *(polisi wedi newid o ITpol03c i QPpol10c)* | Geraint G Jones/ Aled Davies | Medi 2018 |
| 4 | Adolygu gyfeirio at Adra ac is-gwmnïau | Aled Davies | Medi 2019 |
| 5 | Adolygu a diweddariadau bychain | Aled Davies | Ionawr 2021 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 1. Pwrpas

1.1 Mae Adra (Tai) Cyf yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cwmnïau Cymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei gofrestru gyda rheolau elusennol ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Mae Adra wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru a chaiff ei reoleiddio ganddynt.

1.2 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod rheolau effeithiol yn cael ei mabwysiadu fel bod Adra yn cael eu rheoli a gweinyddu yn effeithiol, yn awr ac yn y dyfodol. Diben y polisi hwn yw amddiffyn a hybu hawliau unigolion a Adra mewn perthynas â dal gwybodaeth bersonol a chyfrinachol. Mae'n nodi y dylai gwybodaeth gael ei drin yn gyfrinachol, a'r gweithdrefnau ar gyfer casglu, storio, trin a datgelu gwybodaeth o'r fath.

## 2. Sgôp

2.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer aelodau'r Bwrdd a phob aelod o staff Adra, rhai ar gytundebau parhaol a dros dro ac yn berthnasol i unrhyw ymgynghorwyr neu bobl eraill sy'n ymdrin â data personol ar ran Adra.

2.2 Mae’r polisi hwn yn gymwys i holl ddata personol y mae Adra yn ei brosesu pa bynnag gyfrwng y mae’r data wedi’i storio, boed berthnasol neu beidio i gyflogeion, gweithwyr, cwsmeriaid, cleientiaid neu gysylltiadau cyflenwyr, cyfranddalwyr, defnyddwyr gwefan presennol neu flaenorol neu unrhyw wrthrych data arall.

2.3 Bydd y Polisi hwn yn gymwys i Adra (Tai) Cyf (y Rhiant) ac unrhyw un o’i is-gwmnïau (gan gynnwys Medra Cyf)

## 3. Cyfrifoldebau

3.1 Cyfrifoldeb Swyddog Diogelu Data Adra yw adolygu a diweddaru'r polisi hwn. Cyfrifoldeb y rheolwyr llinell yw sicrhau bod y polisi yn cael ei rannu â staff a phobl eraill gan sicrhau eu bod yn cadw ato.

3.2 Mae staff ac eraill y mae’r polisi hwn yn gymwys iddynt, yn gyfrifol am ddarllen, deall a chydymffurfio â’r polisi hwn.

## 4. Manylion y Polisi

4.1 I sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, mae Adra yn casglu, cadw a phrosesu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol am ei weithwyr, aelodau'r Bwrdd, tenantiaid, ymgeiswyr am dai, rhai sydd wedi ceisio am swyddi a chyflenwyr. Bydd yr wybodaeth

hon yn cael ei brosesu'n unol â’r Deddf Diogelu Data (DPA 2018) ac mae'n cydymffurfio â Fframwaith Rheolaethol Llywodraeth Cymru.

4.2 Mae Adra, fel ceidwad data personol, yn cydnabod ei ddyletswydd gyfreithiol fel rheolydd data i sicrhau bod y data’n cael ei drin yn gywir ac yn gyfrinachol bob amser, pa bynnag ffurf y mae’n cael ei gadw, ar bapur neu ar ffurf electronig. Mae hyn yn parhau dros oes y data, gan gynnwys:

- Casglu data personol;
- Cadw a diogelwch data personol;
- Defnyddio data personol; a
- Chael gwared/dinistrio data personol;

4.3 Mae Adra yn ystyried bod trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon a chywir yn hanfodol i weithredu'n llwyddiannus ac i gynnal hyder rhwng Adra a'r rhai y mae'n gwneud busnes â hwy.

4.4 Bydd Adra yn cydymffurfio â DPA 2018 wrth brosesu data personol a bydd yn darparu gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i breswylwyr yn syth, clir a chywir.

4.5 Bydd Adra yn sicrhau bod unrhyw gais am fynediad i ddata personol yn cael ei drin yn gywir, yn brydlon ac yn unol â’r amserlen a bennwyd gan DPA 2018 ac yn sicrhau bod gan naill ai gwrthrych y data neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig hawl i wybodaeth o dan DPA 2018, a bod yr wybodaeth sydd wedi ei ddarparu yn glir ac yn ddiamwys.

4.6 Bydd Adra yn sicrhau bod gan wrthrych data fynediad addas, pan fydd cais ysgrifenedig yn cael ei wneud, i fanylion yn ymwneud â gwybodaeth bersonol yn ymwneud â hwy.

4.7 Diffinnir data personol fel unrhyw wybodaeth sy’n gysylltiedig â pherson naturiol adnabyddadwy neu adnabyddedig (‘gwrthrych data’); mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeiriad at ddyfais adnabod fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dyfais adnabod ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy’n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetaidd, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.

4.8 Caiff data personol sensitif ei ddiffinio fel data personol sy'n cynnwys gwybodaeth am:

- Tarddiad hil neu ethnig;
- Barn wleidyddol;
- Cred wleidyddol neu gredoau athronyddol arall;
- Aelodaeth o undeb llafur;

- Data genetig;
- Data biometrig (lle caiff hyn ei ddefnyddio at ddibenion adnabod)
- data iechyd;
- Bywyd rhywiol; neu
- Gyfeiriadedd rhywiol
- Achosion cyfreithiol neu euogfarnau.

## 5. Egwyddorion Diogelu Data Personol

5.1 Mae Adra yn cadw at egwyddorion mewn perthynas â phrosesu data personol fel sy'n cael ei nodi yn y DPA 2018; mae'n ofynnol bod data personol:

(a) yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion ('cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder');

(b) yn cael ei gasglu at ddibenion penodedig, eglur a chyfreithlon ac ni chaiff ei brosesu ymhellach mewn modd sy'n anghydnaws gyda'r dibenion hynny; ni chaiff prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol eu hystyried yn anghydnaws gyda'r dibenion cychwynnol ('cyfyngiad diben');

(c) yn ddigonol, perthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran dibenion yr hyn y cawsant eu prosesu yn y lle cyntaf ('lleihau data');

(d) yn gywir, a lle'n angenrheidiol, yn cael ei ddiweddaru; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth bersonol sy'n anghywir, gyda golwg ar y dibenion y cawsant eu prosesu, yn cael eu dileu neu gywiro heb oedi ('cywirdeb');

(e) yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data am ddim mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol at ddibenion y cafodd yr wybodaeth bersonol ei brosesu; gellir storio gwybodaeth bersonol am gyfnod hirach cyn belled ag y bydd data personol ond yn cael ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn amodol ar weithredu'r mesurau sefydliadol a thechnegol priodol sy'n ofynnol yn unol â DPA 2018 er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion ('cyfyngiad storio');

(f) yn cael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol data personol, gan gynnwys diogelu yn erbyn prosesau anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu ddifrod gan ddefnyddio mesurau sefydliadol neu dechnegol priodol. ('uniondeb a chyfrinachedd').

## 6. Hawliau Gwrthrych y Data a Cheisiadau

6.1 Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i sicrhau bod gwrthrych data gyda hawliau pan ddaw i'r modd yr ydym yn ymdrin â'u data personol. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Yr hawl i gael gwybod;
2. Yr hawl i gael mynediad;
3. Yr hawl i gywiro;
4. Yr hawl i ddileu;
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu;
6. Yr hawl i gludadwyedd data;
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfyniadau awtomataidd a wneir a phroffilio;

## 7. Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

7.1 Bydd Adra ond yn casglu, prosesu a rhannu data personol yn deg, yn gyfreithlon ac at ddibenion penodedig.

7.2 Bydd Adra yn cynnal cofrestr o ddata personol yr ydym yn ei ddal, gadw a'i brosesu a'r sylfaen gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data hwn.

7.3 Lle mae angen, bydd Adra yn gofyn ac yn dogfennu cydsyniad i ddal, cadw a phrosesu data.

7.4 Bydd Adra wedi mabwysiadau dull 'preifatrwydd drwy ddylunio' i sicrhau bod yr egwyddorion diogelu data yn cael eu hystyried gyntaf oll ym mhob peth yr ydym yn ei wneud er mwyn sicrhau bod diogelu yn rhan annatod o'n systemau prosesu data.

## 8. Cadw a thrin gwybodaeth

8.1 Caiff gwybodaeth gyfrinachol am weithwyr ei gadw gan yr adran Adnoddau Dynol, adran Gyllid, adran Lywodraethu a'r adran TG.

8.2 Caiff gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â thenantiaid, ymgeiswyr am dai, rhai sy'n gwneud cais am swydd a chyflenwyr eu cadw ar systemau cyfrifiadurol Adra, system e-bost a ffeiliau yn yr adrannau perthnasol.

8.3 Bydd unigolion yn cael gwybod pam bod Adra yn prosesu eu gwybodaeth bersonol ac i ba bartïon y mae Adra yn debygol o ddatgelu'r wybodaeth.

8.4 Bydd Adra yn sicrhau bod hawliau pobl lle caiff gwybodaeth ei ddal yn cael ei ymarfer yn llawn o dan DPA 2018. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Yr hawl i gael gwybod bod prosesu yn mynd ymlaen;
- Yr hawl i gael mynediad i wybodaeth bersonol eich hun o fewn y 30 diwrnod statudol;
- Yr hawl i atal prosesu gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau penodol; a
- Yr hawl i gywiro, atal neu ddileu gwybodaeth bersonol os bydd yn cael ei weld fel yr wybodaeth anghywir.

8.5 Ni fydd Adra yn cadw gwybodaeth am gyfnod hirach nag sydd raid.

8.6 Bydd holl reolwyr a gweithwyr o fewn pob Cyfarwyddiaeth Adra yn cymryd camau i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser a hyn yn erbyn mynediad heb ei awdurdodi neu anghyfreithlon, ei golli neu ei ddatgelu ac, yn enwedig, bydd yn sicrhau:

- Caiff ffeiliau papur a chofnodion neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys data personol/sensitif eu cadw mewn lle diogel;
- Caiff data personol sydd ar systemau cyfrifiadurol eu diogelu gan ddefnyddio cyfrinair; a
- Dylai cyfrineiriau unigol fod yn rhai na all gael eu darganfod yn hawdd.

8.7 Lle'n berthnasol, rhaid i'r holl gontractwyr, ymgynghorwyr, partneriaid neu unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio ar ran Adra sy'n dal data personol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer gan Adra:

- Sicrhau eu bod nhw a'u holl staff sydd gan fynediad i ddata personol sy'n cael ei brosesu ar ran Adra yn ymwybodol o'r polisi hwn, a'u bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan DPA 2018. Bydd torri unrhyw ddarpariaeth yn DPA 2018 o ran 'Data Adra' yn debygol o gael ei weld fel ei fod o bosib yn torri'r cytundeb rhwng Adra a'r unigolyn, cwmni, partner neu ffyrm hwnnw;
- Caniatáu archwiliadau diogelu data gan Adra o ddata sy'n cael ei gadw ar ei ran (os caiff ei ofyn); a
- Digolledu Adra yn erbyn unrhyw erlyniadau, hawliadau, achosion, gweithredu neu daliadau iawndal neu gostau a gafodd eu creu gan eu bod nhw wedi cam-drin data personol Adra.

8.8 Bydd staff sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol ac yn benodol data personol sensitif yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn aros yn gyfrinachol.

8.9 Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau sydd wedi eu gwneud gan ddarpar weithwyr yn cael ei gadw am gyfnod o amser sydd ddim yn fwy na un flynedd o ddyddiad cau'r hysbyseb. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd ffurflenni cais ymgeiswyr sydd heb eu dewis i'w cyflogi yn cael eu dinistrio. Efallai na fydd gwybodaeth ddienw yn cael ei gadw, gan gynnwys ystadegau cyfleoedd cyfartal ymgeiswyr ar gyfer pob swydd sydd wedi ei hysbysebu.

8.10 Bydd gwybodaeth am denantiaid ac ymgeiswyr am dai yn cael ei ddal cyn hired ag sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â swyddogaethau Adra.

8.11 Bydd ffurflenni cais am swyddi yn cynnwys paragraff yn amlinellu sut bydd yr wybodaeth bersonol sydd wedi ei ddarparu ar y ffurflen gais yn cael ei ddefnyddio a chael caniatâd yr ymgeisydd. Bydd tenantiaid ac ymgeiswyr am dai yn cael gwybod yn ysgrifenedig o'r hyn o wneir a phwrpas prosesu'r data a roddir ar ffurflenni cais Adra.

8.12 Dim ond pan fydd hi'n hollol ofynnol y bydd data personol yn cael ei storio ar ddyfeisiadau symudol. Pan fydd hi'n ofynnol i storio gwybodaeth ar ddyfeisiadau symudol yna rhaid rhoi'r amodau canlynol fod yn bresennol:

- Rhaid mai Adra sy'n berchen ar y dyfeisiadau;
- Rhaid i ddilysiad cyfrinair gael ei gymhwyso;
- Lle bo hyn yn bosib, dylai data personol gael ei amgryptio;
- Dim ond y nifer lleiaf o ddata personol gofynnol ar gyfer y diben ddylai gael ei gadw ar y dyfeisiadau symudol ac yna dylai gael ei ddileu lle nad oes ei angen mwyach; a
- Rhaid i fesurau gael eu cymryd i uchafu diogelwch y dyfeisiadau symudol.
- Os caiff gwybodaeth ei storio ar declyn cof, rhaid iddo gael ei amgryptio.

8.13 Ni fydd Adra yn cadw nac yn trosglwyddo data y tu allan i Ardal Economaidd Ewropeaidd.

**9.0 Datgelu Gwybodaeth**

9.1 Mae'r wybodaeth bersonol a gesglir a'i brosesu gan Adra yn cael ei ddogfennu ym mholisïau Preifatrwydd Adra.

9.2 Dylai rhannu gwybodaeth bersonol bob amser gael ei wneud mewn ffordd ddiogel, ni chaiff rhannu data personol dros ffacs ei ganiatáu.

9.3 Lle mae torri amodau data yn digwydd, mae gan Adra bolisi ar waith i adolygu, dogfennu ac (os oes angen) adrodd y torri amod.

## 10. Gwaredu Gwybodaeth

10.1 Lle na fydd angen gwybodaeth bersonol a chyfrinachol mwyach, bydd yn cael ei ddinistrio yn unol â gofynion DPA 2018.

## 11. Hyfforddiant a chyfrifoldeb

11.1 Bydd Adra yn sicrhau bod gan rywun sydd â chyfrifoldeb penodol am gasglu a gwaredu gwybodaeth yn gwybod am faterion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, DPA 2018, a deddfwriaeth eraill berthnasol. Caiff yr unigolyn ei adnabod fel swyddog Diogelu Data Adra.

11.2 Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl staff ac aelodau'r Bwrdd i gynnal cyfrinachedd wrth ymdrin â data personol.

11.3 Bydd torri amodau'r DPA 2018 a'r polisi hwn yn cael ei drin fel mater difrifol.

11.4 Bydd gweithwyr yn cael gwybod am y polisi hwn drwy ddigwyddiadau ymwybyddiaeth, ac ar gyfer gweithwyr newydd, bydd yn cael ei gynnwys yn eu cwrs anwytho.

11.5 Bydd Adra yn hyfforddi staff o dro i dro ar DPA 2018, cyfrifoldeb rheolwyr a'u staff yw mynychu hyfforddiant o'r fath ac i roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data os oes angen hyfforddiant pellach.

11.6 Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod staff roi gwybod i uwch reolwr pan fyddant yn dod i wybod am unrhyw elfen o'r DPA 2018 wedi'i dorri. Yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am adrodd tor amod i'r Swyddog Diogelu Data a chymryd y camau priodol pan fydd yn cael gwybod am hyn yn unol â pholisi Torri Amodau Data Adra.

11.7 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

## 12. Cwynion

12.1 Os bydd unigolyn yn credu bod Adra wedi torri amodau DPA 2018 neu heb gwrdd â'i ymrwymiadau o fewn y polisi hwn, dylent gwyno drwy ddefnyddio Polisi Cwynion Adra.

## 13. Apeliadau

13.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n anfodlon gydag unrhyw benderfyniad sydd wedi ei wneud o ran y polisi hwn atebolrwydd i Bolisi Cwynion Adra.

## 14. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

14.1 Mae Adra yn ymwybodol o'i oblygiadau fel cyflogwr o dan y Ddeddf Gydraddoldeb ac nid oes yna unrhyw oblygiadau amrywiant ar gyfer y polisi hwn.

## 15. Adolygu

15.1 Bydd ffeiliau a chofnodion perthnasol yn cael eu monitro yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

15.2 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn effeithiol a'i fod yn cydymffurfio ag ymarfer da presennol. Bydd adolygiad yn cael ei wneud yn gynt os bydd yna unrhyw newid i ofynion statudol neu os bydd achos difrifol o dor amod y polisi neu'r DPA 2018. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddaru yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.